| | |
|---|---|
| **,Adroddiad i'r:** | **Cyngor** |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **9 Gorffennaf 2013** |
| **Aelodau Arweiniol:** | **Y Cynghorydd Hugh Evans, Aelod Arweiniol Datblygu Economaidd** |
| **Awdur yr Adroddiad :** | **Rebecca Maxwell, Cyfarwyddwr Corfforaethol Uchelgais Economaidd a Chymunedol** |
| **Teitl:** | **Strategaeth Uchelgais Economaidd a Chymunedol Ddrafft Sir Ddinbych – Ymgynghoriad Cyhoeddus** |

---

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae Grŵp Tasg a Gorffen wedi bod yn gweithio er mis Chwefror ar ddatblygu strategaeth gyntaf Sir Ddinbych ar gyfer Uchelgais Economaidd a Chymunedol yn unol â blaenoriaeth y Cynllun Corfforaethol i ddatblygu'r economi lleol. Mae'r gwaith bellach wedi ei gwblhau ac mae'r ddogfen ymgynghori derfynol wedi ei pharatoi.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Mae'r Grŵp Tasg a Gorffen wedi cynhyrchu strategaeth ddrafft ac yn argymell cynnal ymgynghoriad cyhoeddus arni cyn i'r Cyngor fabwysiadu'r strategaeth a'r Cynllun Cyflawni ategol yn ffurfiol ym mis Hydref. Mae angen cymeradwyo cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar y strategaeth ddrafft fel y nodir yn yr adroddiad hwn.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Mae'r Cyngor yn nodi gwaith y Grŵp Tasg a Gorffen o ran paratoi Strategaeth ddrafft Uchelgais Economaidd a Chymunedol (sydd ynghlwm wrth Atodiad 1) ac yn cymeradwyo'r strategaeth ar gyfer cynnal ymgynghoriad cyhoeddus dros yr haf (fel y nodir yn Atodiad 2).

## 4. Manylion am yr Adroddiad

4.1 Mae'r Cynllun Corfforaethol yn nodi Datblygu'r Economi Lleol fel un o'r saith blaenoriaeth gorfforaethol. Yn ystod datblygu'r Cynllun Corfforaethol, bu i'r trigolion nodi bod adfywio'r economi leol yn fater allweddol ac yn sail gadarn i ddatblygiadau eraill.

4.2 Ers mis Chwefror, mae Grŵp Tasg a Gorffen a Swyddogion wedi cyfarfod i ddatblygu Strategaeth Uchelgais Economaidd a Chymunedol Sir Ddinbych. Nod y strategaeth yw egluro sut bydd y Cyngor yn cyflawni ei amcanion corfforaethol ar gyfer datblygu'r economi. Bu i'r Grŵp Tasg a Gorffen gyfarfod 11 gwaith rhwng mis Chwefror a mis

Mehefin. Derbyniodd yr Aelodau amrywiaeth o sylwadau gan Gynghorwyr o bob grŵp gwleidyddol a Grwpiau Aelodau Ardal. Mae manylion y Grŵp Tasg a Gorffen ynghlwm wrth Atodiad 3 er gwybodaeth.

4.3 Mae'r Strategaeth ddrafft wedi ei datblygu drwy ganolbwyntio ar fanteision a chanlyniadau. Cytunodd y Grŵp Tasg a Gorffen y dylai trigolion lleol yn y pendraw weld y budd o ddatblygu'r economi lleol. Canlyniad cyffredinol y strategaeth yw:

***Mae Sir Ddinbych yn sir gyda lefelau uchel o gyflogaeth a lefelau da o incwm ymhob tref a chymuned***

4.4 O hyn, bu i'r Grŵp Tasg a Gorffen greu'r Datganiad Gweledigaeth ganlynol ar gyfer Uchelgais Economaidd a Chymunedol Sir Ddinbych:

***Datblygu Cyfleoedd, Magu Hyder***

***Cydweithio i wneud Sir Ddinbych yn fan lle mae:***

- ***Busnesau, hen a newydd, yn datblygu ac yn ffynnu***
- ***Trefi a chymuned yn llewyrchus ac yn ffynnu***
- ***Trigolion yn mwynhau ansawdd bywyd da ac yn cymryd rhan yn yr economi lleol***

4.5 Bydd angen mynd i'r afael ag ystod o ffactorau craidd er mwyn cyflawni'r weledigaeth hon. Mae'r rhain wedi eu nodi fel meysydd i'w blaenoriaethu ac yn ffurfio strwythur craidd y Strategaeth. Y rhain yw:

- ***Yr Isadeiledd cywir ar gyfer twf***
- *Busnesau sy'n cael eu* ***Cefnogi a'u Cysylltu***
- *Gwneud y gorau o* ***Gryfderau/Cyfleodd Economaidd***
- ***Gweithlu Medrus***
- ***Trefi a Chymunedau Llewyrchus***
- ***Sir Ddinbych wedi ei hyrwyddo'n dda***

4.6 Ar gyfer pob ffactor mae canlyniadau dymunol, materion a newidiadau sydd angen mynd i'r afael â nhw a chamau gweithredu wedi eu nodi, ynghyd â dangosyddion llwyddiant lle gellir asesu effaith a chynnydd yn eu herbyn. Mae Cynllun Cyflawni 4 blynedd dangosol hefyd wedi ei ddatblygu sy'n cyfateb ag amserlen cyflawni'r Cynllun Corfforaethol. Mae'r Strategaeth ei hun, fodd bynnag, ag amserlen hirach (2013-2023).

4.7 Mae'r Grŵp Tasg a Gorffen wedi dod i'r casgliad bod y canlyniadau a'r camau gweithredu a nodwyd yn cynnig y ffordd orau o gyflawni uchelgais y Strategaeth a'r Cynllun Corfforaethol. Mae'r Grŵp Tasg a Gorffen yn argymell bod y rhain yn cael eu profi trwy gynnal ymgynghoriad gyda chymunedau a busnesau Sir Ddinbych cyn cyflwyno'r Strategaeth i'r Cyngor yn yr hydref.

4.8 Cynigir bod y Strategaeth a'r Cynllun Cyflawni (Atodiad 1) ar gael ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus yn ystod mis Gorffennaf a mis Awst trwy ystod o gyfleodd. Ceir manylion ynglŷn â hyn yn Atodiad 2.

4.9 Bydd yr ymgynghoriad yn gymysgedd o weithgareddau uniongyrchol a digwyddiadau agored, galw i mewn, sy'n targedu grwpiau penodol. Bydd busnesau lleol a'u grwpiau/rhwydweithiau cynrychioli, trigolion lleol, Cynghorau Tref a Chymuned, ysgolion a phobl ifanc a mudiadau partner yn cael eu targedu.

4.10 Bydd digwyddiadau ymgynghori penodol yn cael eu trefnu i archwilio'r Strategaeth yn fanwl o ran a) Twristiaeth, b) Sectorau i'w Blaenoriaethu ar gyfer Twf ac c) Datblygu Economaidd Gwledig. Bydd y rhain yn cael eu hategu gan ddigwyddiadau ymgynghori generig wedi eu trefnu ar hyd a lled y sir.

4.11 Y tri chwestiwn allweddol y bydd yr ymgynghoriad yn eu gofyn yw:

a) A yw'r Weledigaeth, y canlyniadau bwriedig a'r egwyddorion creiddiol yn addas ar gyfer Sir Ddinbych?

b) A yw'r Strategaeth yn cynnwys y materion pwysig, yr heriau a'r cyfleoedd sy'n effeithio ar economi lleol Sir Ddinbych?

c) A fydd prif gamau gweithredu'r Cynllun Cyflawni yn cael yr effaith cywir?

4.12 Bydd canlyniad yr ymgynghoriad yn cael ei ystyried yn ystod cyfarfod olaf y Grŵp Tasg a Gorffen cyn i'r Strategaeth Uchelgais Economaidd a Chymunedol, Cynllun Cyflawni a'r Fframwaith Perfformiad gael eu cyflwyno i'r Cyngor ar gyfer cymeradwyaeth yn yr hydref.

4.13 Unwaith mae'r Strategaeth wedi ei chymeradwyo, bydd Bwrdd Rhaglen Uchelgais Economaidd a Chymunedol yn darparu trosolwg o'r ddarpariaeth. Bydd yn monitro'r cynnydd a'r effaith, yn cynorthwyo i ddatrys problemau a goresgyn rhwystrau, ac yn argymell newidiadau yn ôl yr angen yn ystod bywyd y Strategaeth i sicrhau'r effaith bwriedig. Un o brif swyddogaethau'r Bwrdd Rhaglen fydd sicrhau bod prosiectau a gweithgareddau yn rhoi'r budd bwriedig. Mae gwybodaeth bellach ar gyfansoddiad a swyddogaeth y Bwrdd Rhaglen, yn ogystal â'r cyfrifoldebau a'r trefniadau llywodraethu, ar gael yn y Strategaeth.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae Datblygu'r Economi Lleol yn un o flaenoriaethau corfforaethol allweddol y Cynllun Corfforaethol. Mae Strategaeth ddrafft Uchelgais Economaidd a Chymunedol yn nodi'n fanwl sut bydd y Cyngor yn mynd i'r afael â'r flaenoriaeth hon.

**6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Mae'r Cynllun Corfforaethol yn nodi £2 filiwn fel dyraniad dangosol tuag at gwrdd â chostau gweithredu'r Flaenoriaeth Gorfforaethol ar gyfer yr Economi. Neilltuwyd £160 mil yng nghyllideb 2-13/14. Roedd hyn yn ychwanegol i'r dyraniadau blaenorol ar gyfer Adfywio a Chynlluniau Tref ac Ardal. Mae'r cyllid newydd, ynghyd â chyllidebau presennol a chyfleodd ar gyfer derbyn grantiau, yn rhoi'r rhan fwyaf o'r arian sydd ei angen i weithredu'r flaenoriaeth. Wrth ddatblygu prosiectau a mentrau bydd y costau yn dod yn fwy amlwg a gellir eu hystyried o fewn cyd-destun Cynllun Ariannol Tymor Canolig y Cyngor.

**7. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd ac a gynhaliwyd Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb?**

Mae'r Strategaeth ddrafft wedi ei pharatoi trwy Grŵp Tasg a Gorffen trawsbleidiol. Cynhaliwyd ymgynghoriadau cynnar gyda thrawstoriad o fusnesau lleol. Mae adborth y cyhoedd ar ddatblygu Cynllun Corfforaethol y Cyngor yn amlygu bod datblygu'r economi lleol yn bwysig ar gyfer trigolion Sir Ddinbych.

Mae'r adroddiad ac Atodiad 2 yn nodi'r cynigion ar gyfer ymgynghoriad ffurfiol ar y Strategaeth a'r Cynllun Cyflawni arfaethedig.

Bydd Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn cael ei gynnal dros yr haf.

**8. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Mae Datblygu'r Economi Sir Ddinbych wedi ei nod yn y Cynllun Corfforaethol fel un o flaenoriaethau'r Cyngor ac mae arian wedi ei neilltuo i ddechrau'r prosiectau. Mae'n rhaid i unrhyw wariant fod o fewn y cronfeydd hyn neu'r cyllidebau presennol.

**9. Pa risgiau sy'n bodoli ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Bydd asesiad risg ar gyflawni'r Strategaeth yn cael ei gynnal dros yr haf. Bydd Bwrdd Rhaglen Uchelgais Economaidd a Chymunedol yn goruchwylio'r gwaith o reoli'r Gofrestr Risg.

**10. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Adran 2, Deddf Llywodraeth Leol 2000

**Swyddog Cyswllt:**
Cyfarwyddwr Corfforaethol Uchelgais Economaidd a Chymunedol
Ffôn: 01824 706061